Cyllid & Thollau EM

Nodiadau ar YMDDIRIEDOLAETHAU AC ATI

CYNNWYS

Cwblhau'r Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati TN1

Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau TN1
- Buddiolwyr TN1
- Setlwyr TN1

Incwm o ystadau'r ymadawedig TN2
- Buddiolwyr gweddill TN2
- Gwybodaeth gan gynrychiolwyr personol TN2
- Cymynroddion TN3
- Sefyllfaoedd arbennig TN3
- Ystadau Tramor TN3
- Treth dramor a dalwyd TN3
- Diffiniadau TN3

TAFLENNI CYMORTH

Mae Taflen Gymorth IR270 yn rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth penodol. Mae ar gael o'r Llinell Archebu neu yn **www.hmrc.gov.uk**

- *IR270: Trusts and settlements - income treated as the settlor's*

Cwblhau'r Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati

Cwblhewch y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati os cawsoch unrhyw incwm yn y flwyddyn hyd 5 Ebrill 2006 o ymddiriedolaeth, setliad neu ystad person ymadawedig. Mae'r Nodiadau hyn yn dweud wrthych beth i'w wneud.

Efallai y gallwch adael y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati yn wag. Os penderfynwch ar ôl darllen y nodiadau ar flychau 7.1 i 7.12 isod, y gallwch nodi'r holl incwm o ymddiriedolaeth neu setliad yn rhywle arall ar eich Ffurflen Dreth, atebwch 'Do' i Gwestiwn 7 ar dudalen 2 eich Ffurflen Dreth yna nodwch yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.9 ar dudalen 10 pam bod y Tudalennau Ymddiriedolaeth ac ati yn wag.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, fel:

- datganiadau o symiau a dalwyd neu hawliau i incwm o ymddiriedolaeth – gallwch ofyn i'r ymddiriedolwr am ffurflen R185(Incwm Ymddiriedolaeth)
- datganiadau o symiau a dalwyd o ystad person ymadawedig – gallwch ofyn i'r cynrychiolydd personol am ffurflen R185(Incwm Ystad).

Mae rhifau'r blychau ar y ffurflenni hyn yn adlewyrchu'r rhifau ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Dylech drosglwyddo'r wybodaeth ar y ffurflen i'r blychau cyfatebol ar eich Ffurflen Dreth.

Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau

Buddiolwyr

blychau 7.1 i 7.12 Bydd y man lle rydych yn nodi incwm o ymddiriedolaeth yn dib ynnu ar y math o ymddiriedolaeth.

Ymddiriedolaeth Wag

Os ydych yn fuddiolwr ymddiriedolaeth wag (bare trust), (hynny yw un lle mae gennych hawl absoliwt i'r incwm a'r cyfalaf o'r ymddiriedolaeth neu'r setliad), peidiwch â chynnwys yr incwm hwn ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Dylech ei drin fel petai'n perthyn i chi ac nid i'r ymddiriedolwyr, a dylech ei gynnwys yn y tudalennau ar eich Ffurflen Dreth sy'n delio â'r math o incwm dan sylw.

Ymddiriedolaethau Dewisiadol lle mae'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU

Os nad oedd gennych hawl absoliwt i incwm o ymddiriedolaeth neu setliad, ac os yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU at ddibenion Treth Incwm, dylech ddatgan yr holl incwm a gawsoch gan yr ymddiriedolwyr yn y flwyddyn:

- nodwch ym mlwch 7.1 yr incwm gwirioneddol a gawsoch
- nodwch ym mlwch 7.2 y credyd treth ar y gyfradd sy'n gymwys i ymddiriedolaeth (40%)
- nodwch ym mlwch 7.3 yr incwm cyn treth ('y swm trethadwy').

Cewch y ffigurau hyn o'r ffurflen R185(Incwm Ymddiriedolaeth) a ddarperir gan yr ymddiriedolwyr.

Ymddiriedolaethau Dewisiadol lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU

Os nad oedd gennych hawl absoliwt i incwm o ymddiriedolaeth neu setliad, ac os nad yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU at ddibenion Treth Incwm, dylech ddatgan yr holl incwm a gawsoch gan yr ymddiriedolwyr yn y flwyddyn. Fodd bynnag, ni ddylech nodi unrhyw beth yn y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, cwblhewch flwch 6.5 ar y Tudalennau Tramor. Os byddwch am wneud cais am ryddhad o dan Gonsesiwn Allstatudol B18 ffoniwch y Ganolfan ar gyfer y Dibreswyl ar **0845 070 0040**.

Buddiant mewn Ymddiriedolaeth Feddiant lle mae'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU neu'n rhywle arall

Os oedd gennych hawl absoliwt i incwm ond nid i gyfalaf o ymddiriedolaeth neu setliad:

- peidiwch â nodi unrhyw ddifidendau stoc ar Dudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech eu cynnwys ym mlychau 10.21 i 10.23 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth
- peidiwch â nodi incwm o ffynonellau tramor ar Dudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech ei gynnwys ar y Tudalennau Tramor os ydych yn preswylio yn y DU
- ni ddylech gynnwys unrhyw incwm gros a gawsoch o ymddiriedolaeth, fel incwm o eiddo ar osod (hynny yw, heb unrhyw dreth wedi'i didynnu) yn y Tudalennau Ymddiriedolaeth ac ati. Yn lle hynny, dylech ei gynnwys ar dudalennau eich Ffurflen Dreth sy'n delio â'r ffynhonnell arbennig honno o incwm
- nodwch ym mlychau 7.4 i 7.6 incwm y talwyd treth arno ar y gyfradd sylfaenol (22%):
  - ym mlwch 7.4 yr incwm gwirioneddol y mae hawl gennych iddo
  - ym mlwch 7.5 y Dreth Incwm a ddidynnwyd
  - ym mlwch 7.6 yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlychau 7.7 i 7.9 incwm y didynnwyd treth ohono, neu sydd â chredyd treth, ar y gyfradd is (20%):
  - ym mlwch 7.7 yr incwm gwirioneddol y mae hawl gennych iddo
  - ym mlwch 7.8 y dreth a ddidynnwyd neu'r credyd treth
  - ym mlwch 7.9 yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlwch 7.10 i 7.12 yr incwm sydd â chredyd treth ar y gyfradd ddifidend (10%):
  - ym mlwch 7.10 rhowch yr incwm gwirioneddol y mae gennych hawl iddo
  - ym mlwch 7.11 rhowch y credyd treth
  - ym mlwch 7.12 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy') .

Bydd yr ymddiriedolwr yn gallu dweud wrthych pa fathau o incwm a dderbyniwyd ar eich rhan.

Setlwyr

blychau 7.1 i 7.12 Mae setliad yn cynnwys ymddiriedolaeth, cyfamod, gwaredu, trefniant neu drosglwyddiad asedion. Os ydych wedi darparu arian ar gyfer setliad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel arfer caiff yr incwm ei drin fel eich un chi at ddibenion treth. Gall hyn fod yn gymwys:

- os gallwch chi neu eich cymar neu'ch partner sifil elwa ar unwaith neu yn y dyfodol o gyfalaf neu incwm y setliad, **neu**
- os telir cyfalaf neu incwm y setliad i, neu er lles, eich plentyn neu lysblentyn na fu erioed yn briod neu fewn partneriaeth sifil

tra bod y plentyn hwnnw o dan 18 oed neu mae'r incwm yn eiddo i'r fath blentyn, **neu**

- os yw'r setliad yn gyfamod ar gyfer taliadau i elusen (ni ddylai'r cyfamod hwn fod yn hwy na thair blynedd), **neu**
- os ydych chi neu eich priod neu'ch partner sifil wedi derbyn benthyciad neu ad-daliad benthyciad gan ymddiriedolwyr y setliad.

Os credwch y gallai un o'r sefyllfaoedd hyn fod yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR270: Trusts and settlements - income treated as the settlor's.*

Mae'r ffordd rydych yn cynnwys yr incwm ar eich Ffurflen Dreth yn dibynnu ar y math o setliad. Os yw'n ymddiriedolaeth lle y gallwch chi neu'ch priod elwa ar unwaith neu yn y dyfodol o'r cyfalaf neu'r incwm, mae'n dibynnu p'un a yw dogfen yr ymddiriedolaeth yn rhoi hawl absoliwt i incwm yr ymddiriedolaeth i chi ai peidio.

Buddiant mewn Ymddiriedolaeth Feddiant lle mae gennych hawl absoliwt i'r incwm

Os oedd gennych hawl absoliwt i incwm ond nid i gyfalaf ymddiriedolaeth, yna dim ond y rhan o incwm yr ymddiriedolaeth a ddefnyddir i gwrdd â threuliau'r ymddiriedolaeth (Treuliau Rheolaeth yr Ymddiriedolaeth), a ddidynnir wrth gyfrifo'ch incwm sy'n rhaid ei ystyried fel eich incwm chi. Mae hynny oherwydd bod yr holl incwm arall eisoes yn perthyn i chi.

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer blychau 7.1 a 7.12 o dan y pennawd 'Buddiant mewn Ymddiriedolaethau Meddiant' ar gyfer 'Buddiolwyr' ar dudalen TN1.

Mae'r arweiniad ar *Daflen Gymorth IR270* yn dweud wrthych sut i gyfrifo'r hyn i'w gofnodi ar gyfer Treuliau Rheolaeth yr Ymddiriedolaeth:

- peidiwch â nodi manylion ar gyfer incwm o dramor a ddefnyddir i gwrdd â threuliau'r ymddiriedolaeth ar y Tudalennau Ymddiriedolaeth ac ati. Yn lle hynny, dylech gynnwys difidendau tramor ym mlwch 6.2 ar dudalen F1 ac incwm tramor arall ym mlwch 6.4 ar dudalen F2 ar y Tudalennau Tramor.
- ar gyfer incwm y DU a ddefnyddir i gwrdd â threuliau'r ymddiriedolaeth, bydd angen i chi gofnodi incwm difidendau'r DU ym mlychau 10.15 i 10.17 ar dudalen 3. Nodwch incwm arall o'r DU ym mlychau 13.1 i 13.3 ar dudalen 4 eich Ffurflen Dreth.

Setliadau lle y gallwch chi neu'ch priod neu'ch partner sifil elwa ar unwaith neu yn y dyfodol o'r cyfalaf neu'r incwm a lle nad oedd gennych hawl absoliwt i'r incwm

Os nad yw dogfen yr ymddiriedolaeth yn rhoi hawl absoliwt i'r incwm i chi, nodwch incwm gwirioneddol yr ymddiriedolaeth heb ddidynnu Treuliau Rheolaeth yr Ymddiriedolaeth:

- peidiwch â nodi manylion am incwm tramor ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech gynnwys difidendau tramor ym mlwch 6.2 ar dudalen F1 ac incwm tramor arall ym mlwch 6.4 ar dudalen F2 y Tudalennau Tramor
- nodwch ym mlychau 7.10 i 7.12 yr incwm sydd â chredyd treth ar y gyfradd ddifidend (10%)
  - ym mlwch 7.10 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.11 rhowch y credyd treth
  - ym mlwch 7.12 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlychau 7.4 i 7.6 yr holl incwm arall gan gynnwys incwm o gynilion a drethwyd ar y gyfradd is
  - ym mlwch 7.4 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.5 rhowch y Dreth Incwm a ddidynnwyd
  - ym mlwch 7.6 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')

Setliadau eraill

Ar gyfer pob setliad arall (lle na fyddwch chi na'ch priod na'ch partner sifil yn gallu elwa'n syth neu yn y dyfodol o'r cyfalaf neu incwm ymddiriedolaeth) nodwch y swm sydd i'w drin fel eich incwm chi at ddibenion treth. *Bydd Taflen Waith IR270* yn eich helpu i gyfrifo'r symiau:

- peidiwch â nodi manylion am incwm tramor ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech gynnwys difidendau tramor ym mlwch 6.2 ar dudalen F1 ac incwm tramor arall ym mlwch 6.4 ar dudalen F2 y Tudalennau Tramor
- nodwch ym mlychau 7.10 i 7.12 yr incwm sydd â chredyd treth ar y gyfradd ddifidend (10%):
  - ym mlwch 7.10 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.11 rhowch y credyd treth
  - ym mlwch 7.12 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlychau 7.4 i 7.6 yr holl incwm arall gan gynnwys incwm o gynilion a drethwyd ar y gyfradd is ac incwm a dalwyd gan ymddiriedolwyr i'ch plentyn:
  - ym mlwch 7.4 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.5 rhowch Dreth Incwm y DU a ddidynnwyd (os o gwbl)
  - ym mlwch 7.6 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy').

blwch 7.12A Os ydych wedi cynnwys incwm o ymddiriedolaethau neu setliadau lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU at ddibenion treth, mewn unrhyw fan yn eich Ffurflen Dreth, yna ticiwch 7.12A.

Incwm o ystadau'r ymadawedig

Buddiolwyr gweddill ystad

Mae buddiolwr gweddill ystad yn rhywun sydd â hawl i gyfran o weddill ystad. Y gweddill yw'r hyn sydd ar ôl yn yr ystad ar ôl talu dyledion, treuliau a chymynroddion.

Ni chodir Treth Incwm ar y 'gweddill' ei hun ond mae buddiolwyr y gweddill yn atebol i dreth ar yr incwm sydd wedi deillio o'u cyfran hwy o'r gweddill. Mae gan y mwyafrif helaeth o fuddiolwyr gweddill ystad fuddiant absoliwt: hynny yw, mae ganddynt hawl i dderbyn yr incwm yn ogystal â'r cyfalaf o'u cyfran hwy o'r ystad.

I gyfrifo'r swm i'w nodi fel incwm o'r ystad, cymer wch yr isaf o:

- unrhyw symiau a dalwyd i chi gan y cynrychiolwyr personol yn y flwyddyn, **neu**
- yr incwm a ddeilliodd o'ch cyfran chi o'r gweddill ers i'r ystad ddechrau.

Dylai'r cynrychiolwyr personol ddweud wrthych y swm cywir i'w nodi ar eich Ffurflen Dreth eich hun gan ddefnyddio Ffurflen R185(Incwm Ystad).

Os daeth cyfnod gweinyddu'r ystad i ben yn 2005-06 cewch eich trin fel pe baech wedi derbyn yr holl incwm a ddeilliodd o'ch cyfran chi o'r ystad, llai unrhyw incwm a gafodd ei drin eisoes fel eich incwm chi am flynyddoedd cynharach.

Os na gawsoch unrhyw beth o'r ystad yn 2005-06, ac os na ddaeth yr ystad i ben yn 2005-06, yna nid oes rhaid i chi nodi incwm o'r ystad ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati o gwbl. Os ydych yn ansicr pa bryd y daeth yr ystad i ben, dylech ofyn i'r cynrychiolwyr personol.

Gwybodaeth gan gynrychiolwyr personol

Dylai cynrychiolwyr personol roi ffurflen R185(Incwm Ystad) i fuddiolwyr gweddill ystad ar ôl diwedd 2005-06, os ydynt wedi talu unrhyw incwm neu gyfalaf o'r ystad i fuddiolwyr gweddill ystad. Mae rhifau'r blychau 7.13 i 7.31 ar y ffurflen yn adlewyrchu'r rhifau ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Dylech drosglwyddo'r ffigurau a welir yn y blychau ar y ffurflen i'r blychau cyfatebol ar eich Ffurflen Dreth.

Dylai'r cynrychiolwyr personol eisoes fod wedi talu'r dreth ar unrhyw incwm a gafwyd ganddynt, ac mae gan fuddiolwr gweddill ystad yr hawl i osod y dreth honno yn erbyn eu rhwymedigaeth Treth Incwm eu hunain am y flwyddyn. Bydd y R185(Incwm Ystad) yn dangos yr incwm yn ogystal â'r credyd treth sydd ynghlwm wrtho. Mae'r golofn olaf yn dangos y cyfanswm sy'n drethadwy, hynny yw, cyfanswm y ddwy golofn arall, sef yr incwm net plws y dreth a dalwyd.

Nodiadau ar YMDDIRIEDOLAETHAU AC ATI.

Os oedd yr ystad yn un fach iawn, neu os cafodd ei dir wyn i ben yn gyflym iawn, mae'n bosibl nad oedd y cynr ychiolwyr personol wedi derbyn incwm yn ystod y cyfnod gweinyddu. Os felly , nid oes angen f furflen R185(Incwm Ystad) ar noch.

Cymynroddion

Mae cymynrodd yn swm penodol o arian neu ased arbennig a gadawyd i chi o dan ewyllys ac nid yw ynddo'i hun yn drethadwy. Ond bydd unrhyw incwm sy'n deillio o swm neu ased penodol – efallai oherwydd oedi cyn ei dalu i chi – yn drethadwy. Dylech nodi'r incwm hwn ym mlwch 10.14 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth.

Os yw eich cymynrodd yn ased sy'n cynhyr chu incwm, nodwch yr incwm yn y blychau ar y Ffurflen Dreth ar gyfer y math hwnnw o incwm (ac nid ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati). Er enghraifft, os oedd eich cymynrodd yn cynnwys cyfranddaliadau mewn cwmni o dan ewyllys yr ymadawedig, a thalwyd difidend gan y cwmni ar y cyfranddaliadau hyn, dylech nodi'r incwm difidend ym mlychau 10.15 i 10.26 ar dudalen 3 eich Ffur flen Dreth. Os oedd eich cymynr odd yn cynnwys eiddo ac r ydych yn derbyn rhent tr wy osod yr eiddo, dylech ateb Cwestiwn 5 ar dudalen 2 ar eich Ffur flen Dreth a chwblhau'r T udalennau Tir ac Eiddo, fel y bo'n briodol.

Sefyllfaoedd arbennig

Buddiannau cyfyngedig

Os byddwch ond a hawl i incwm mewn ystad ond nid y cyfalaf, yna bydd gennych yr hyn a elwir yn fuddiant cyfyngedig yn y gweddill. Os daeth yr ystad i ben yn 2005-06 yna dylid nodi eich cyfran chi o'r incwm a gododd ers i'r ystad ddechrau ym mlychau 7.13 i 7.31 y T udalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Ym mhob achos arall dylech nodi'r symiau a dderbynioch mewn gwirionedd o'r ystad yn 2005-06 yn y blychau hynny .

Buddiannau dewisiadol

Os oes hawl gennych i incwm o'r ystad yn unig oher wydd bod y cynrychiolwyr personol wedi ar fer disgr esiwn o'ch plaid, dylent fod yn gallu rhoi datganiad o'r incwm i chi ar f furflen R185(Incwm Ystad). Nodwch y ffigurau ar y datganiad ym mlychau 7.13 i 7.31 ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati.

Buddiannau olynol

Os bydd buddiolwr gweddill yn mar w yn ystod cyfnod gweinyddu ystad, yna caiff unrhyw fuddiolwr gweddill newydd eu trin fel pe baent wedi bod yn fuddiolwr gweddill ers dechrau'r ystad wreiddiol. Mae'r buddiolwyr gweddill newydd yn drethadwy yn yr un modd â buddiolwyr gweddill cyffredin, hynny yw ar yr isaf o'r symiau a dalwyd iddynt mewn gwirionedd yn y flwyddyn, neu'r incwm a gododd ar eu cyfran hwy o'r incwm ers i'r ystad ddechrau. Fodd bynnag, wrth weithio allan eich hawl i incwm ers i'r ystad ddechrau, mae hawl gennych gael didyniad am y symiau a gafodd eu trin fel incwm y buddiolwr gwreiddiol mewn blynyddoedd cynharach.

Gweithredoedd amrywiad

Os newidir amodau ewyllys (neu reolau diewyllysedd), yna caiff buddiolwyr eu trethu ar yr incwm a delir iddynt mewn gwirionedd. Ni ellir ôl-ddyddio gweithr edoedd amr ywiad at ddibenion T reth Incwm ac felly ni allant newid eich incwm trethadwy ar gyfer cyfnodau cyn dyddiad y weithred.

Incwm sy'n agored i Dreth Etifeddiant

Weithiau bydd incwm y codir T reth Etifeddiant ar no yn atebol i Dreth Incwm hefyd. Gall hyn ddigwydd pan gronnodd yr incwm cyn i'r ymadawedig far w, ond ni chafodd ei dalu tan ar ôl eu marwolaeth. Mae r hyddhad tr eth arbennig ar gael ar gyfer pobl sydd i bob pwrpas wedi talu treth ddwywaith ar yr un darn o incwm o ganlyniad i'r sefyllfa hon. Mae'n gweithio dr wy ostwng swm yr incwm a gaiff ei drin fel petaech wedi ei dderbyn gan yr ystad. Os bydd y cynr ychiolwyr personol wedi r hoi datganiad i chi sy'n cyfeirio at y rhyddhad hwn, yna gallwch nodi swm y gostyngiad yn y blwch priodol ar gyfer y math hynny o incwm.

Hawliau Cyfreithiol yr Alban

Os hawliwch eich hawliau cyfreithiol mewn ystad yn yr Alban, caiff eich hawl fel ar fer ei dalu ynghyd â llog. Dylech gynnwys y llog hwn ym mlwch 10.14 ar dudalen 3 eich Ffur flen Dreth.

Ystadau tramor

Ystad dramor yw un lle nad yw incwm yr ystad wedi dwyn treth lawn y DU am nad yw'r cynrychiolwyr personol yn pr eswylio nac fel ar fer yn pr eswylio yn y DU, neu oher wydd i'r ymadawedig far w tra roedd ei breswylfa y tu allan i'r DU, a derbyniwyd incwm tramor gan yr ystad. Os ydych wedi derbyn incwm o ystad dramor yn 2005-06, dylech nodi swm llawn yr incwm hwnnw ym mlychau 7.13 a 7.15 a nodi sero '0' ym mlwch 7.14.

Os oes incwm gan yr ystad sydd wedi dwyn treth y DU, yna dylai swm yr incwm y dylech ei nodi ym mlychau 7.13 a 7.15 gael ei ostwng gan y ffracsiwn canlynol,

$$\frac{\text{A } \textit{llai} \text{ B}}{\text{C } \textit{llai} \text{ B}}$$

lle mae:

A yn cynrychioli cyfran o gyfanswm incwm yr ystad sydd eisoes wedi dwyn treth y DU am y flwyddyn dreth

B yn cynrychioli swm y dreth a dalwyd

C yn cynrychioli cyfanswm incwm yr ystad am y flwyddyn dreth .

Treth dramor a dalwyd

Os cawsoch incwm sy'n drethadwy yn y DU ond a drethwyd hefyd mewn gwlad dramor, efallai y bydd hawl gennych wneud cais am gredyd ar gyfer y dreth dramor a dalwyd wrth gyfrifo eich rhwymedigaeth treth yn y DU. Gelwir hyn yn rhyddhad credyd treth dramor . Gallwch wneud cais amdano dr wy gwblhau tudalennau T ramor eich Ffur flen Dreth.

Os oes gennych incwm o'r fath ond mae'n well gennych beidio â gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, gallwch ddidynnu'r dreth dramor a dalwyd o'ch incwm yn lle hynny. Os byddwch yn dewis gwneud hyn, dylech nodi swm y dreth dramor ym mlwch 7.31 y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati.

Ni allwch wneud cais am ryddhad credyd treth dramor yn ogystal â didyniad am y dreth dramor a ddidynnwyd, ar gyfer yr un swm o incwm.

Diffiniadau

Cynrychiolwr personol – person a benodwyd naill ai fel ysgutor (er mwyn gweithredu'r dymuniadau a fynegwyd yn yr ewyllys) neu weinyddwr (er mwyn casglu ynghyd â dosbarthu'r ystad yn absenoldeb ewyllys). Defnyddir y term ysgutor ar gyfer y ddwy sefyllfa yn yr Alban.

Ystad – pob eiddo, arian ac asedion eraill y person a fu far w.

Cyfnod gweinyddu – y cyfnod sy'n rhedeg o'r diwrnod yn dilyn dyddiad y far wolaeth tan y dyddiad pan fydd yr ystad yn bar od i'w dosbarthu i'r buddiolwyr gweddill.

Diewyllysedd – pan fydd person yn mar w heb adael ewyllys ddilys neu'n gwaredu eu heiddo mewn ewyllys ddilys.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.